# Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio
# Preventing Extremism and Radicalisation Policy

Ysgol Gymunedol Trimsaran

Rhagfyr 2023 / December 2023

Mabwysiadwyd y Polisi yma gan Lywodraethwyr Ysgol Gymraeg Ffwrnes
*This Policy has been adopted by the Governors of Ysgol Gymraeg Ffwrnes*

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## 1. CYD-DESTUN POLISI

Mae Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig, sy'n dwyn yr enw CONTEST ac y cyfeirir ati yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, yn cynnwys pedair ffrwd waith allweddol:

- **Olrhain,**
- **Atal,**
- **Amddiffyn**

**a**

- **Pharatoi.**

Mae nifer o amcanion allweddol yn perthyn i bob ffrwd waith. Mae'r Polisi hwn yn delio â'r ffrwd waith Atal yn unig.

**Atal**

Nod y strategaeth Atal yw lleihau bygythiad terfysgaeth i'r Deyrnas Unedig trwy atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

Mae arweiniad yng Nghymru a Lloegr, gweler Atodiad 4, yn esbonio'r rhwymedigaethau ar awdurdodau penodol i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.

## 2. DATGANIAD POLISI

'Mae Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn ymrwymo'n llawn i ddiogelu a hyrwyddo lles ei holl ddisgyblion. Mae pob aelod staff yn cydnabod nad yw amddiffyn yn erbyn radicaleiddio ac eithafiaeth yn wahanol i amddiffyn yn erbyn unrhyw agoredrwydd i ddylanwad arall yng nghymdeithas heddiw. Mae'r Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio yn amlinellu ein credoau, ein strategaethau a'n gweithdrefnau i amddiffyn unigolion agored i niwed rhag cael eu radicaleiddio neu rhag dod i gysylltiad â safbwyntiau eithafol, gan amlygu pwy yw'r unigolion hyn a rhoi cymorth iddynt ar unwaith.

## 3. NODAU AC EGWYDDORION

Bwriedir i Bolisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio Ysgol Gymraeg Ffwrnes ddarparu fframwaith ar gyfer delio â materion yn ymwneud â bod yn agored i safbwyntiau eithafol, radicaleiddio a dod i gysylltiad â nhw. Rydym yn cydnabod ein bod mewn sefyllfa dda i allu amlygu problemau diogelu ac mae'r polisi hwn yn amlinellu'n glir sut bydd yr ysgol yn delio â digwyddiadau o'r fath ac yn amlygu sut mae'r cwricwlwm a'r ethos yn sylfaen i'n camau gweithredu.

Dyma'r amcanion:

- Bydd pob llywodraethwr, athro, cynorthwyydd addysgu a staff nad ydynt yn staff addysgu yn meddu ar ddealltwriaeth o beth yw radicaleiddio ac eithafiaeth a pham mae angen i ni fod yn wyliadwrus yn yr ysgol.
- Bydd pob llywodraethwr, athro, cynorthwyydd addysgu a staff nad ydynt yn staff addysgu yn gwybod beth yw polisi'r ysgol ar fynd i'r afael ag eithafiaeth a radicaleiddio a byddant yn dilyn yr arweiniad polisi yn gyflym pan fydd problemau'n codi.
- Bydd pob disgybl yn deall peryglon radicaleiddio a dod i gysylltiad â safbwyntiau eithafol, gan feithrin y gallu i wrthsefyll y rhain a gwybod beth i'w wneud os byddant yn cael profiad ohonynt.
- Bydd pob rhiant/gofalwr a disgybl yn gwybod bod polisïau ar waith gan yr ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel rhag niwed a bod yr ysgol yn adolygu ei systemau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol.

Prif nodau'r polisi hwn yw sicrhau bod staff yn rhoi eu holl sylw i fod yn wyliadwrus ynghylch radicaleiddio, eu bod yn goresgyn anghrediniaeth broffesiynol na fydd materion o'r fath yn digwydd yma a sicrhau ein bod yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau a chyrff proffesiynol eraill i sicrhau bod ein disgyblion yn ddiogel rhag niwed.

## 4. DANGOSYDDION AGOREDRWYDD I RADICALEIDDIO

Mae radicaleiddio yn cyfeirio at y broses pan fydd unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth a mathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth. Mae'r Llywodraeth yn diffinio eithafiaeth yn y Strategaeth Atal fel a ganlyn:

Gwrthwynebiad llafar neu weithgar i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth cyfraith, rhyddid unigol, a pharch a goddefgarwch tuag at ffydd a chredoau gwahanol. Yn ogystal, rydym yn cynnwys yn ein diffiniad o eithafiaeth alwadau eithafiaeth am farwolaeth aelodau o'n lluoedd arfog, boed yn y wlad hon neu dramor.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn diffinio eithafiaeth fel a ganlyn:

*Dangos ymddygiad annerbyniol gan ddefnyddio unrhyw ddull neu gyfrwng i fynegi safbwyntiau sydd:*

- *yn annog, yn cyfiawnhau neu'n mawrygu trais terfysgol er mwyn hyrwyddo credoau penodol;*
- *yn ceisio pryfocio pobl eraill i gyflawni gweithredoedd terfysgol;*
- *yn annog gweithgarwch troseddol difrifol arall neu'n ceisio pryfocio pobl eraill i gyflawni gweithredoedd troseddol difrifol; neu*
- *yn meithrin casineb a allai arwain at drais rhwng cymunedau yn y Deyrnas Unedig.*

Nid oes y fath beth ag "eithafwr nodweddiadol". Mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau eithafol treisgar yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau, ac nid yw'r rhan fwyaf o unigolion, hyd yn oed y rhai sydd â safbwyntiau radical, yn cymryd rhan mewn gweithgarwch eithafol treisgar.

Gallai disgyblion fod yn agored i radicaleiddio trwy amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, personol ac amgylcheddol. Mae'n hysbys bod eithafwyr treisgar yn ecsbloetio agoredrwydd i ddylanwad mewn unigolion er mwyn gyrru hollt rhyngddynt a'u teulu a'u cymunedau, h.y. i greu ymdeimlad o 'nhw' a 'ni'. Mae'n hanfodol bod holl staff ysgol yn gallu adnabod yr agoredrwydd hwnnw i ddylanwad.

Mae arwyddion o fod yn agored i ddylanwad yn cynnwys:

- Argyfwng Hunaniaeth – mae'r myfyriwr/disgybl yn ymbellhau oddi wrth ei dreftadaeth ddiwylliannol/crefyddol ac yn anghyfforddus â'i le mewn cymdeithas;
- Argyfwng Personol – gall y myfyriwr/disgybl fod yn profi tensiynau teuluol, ymdeimlad o unigedd a diffyg hunan-barch; gall fod wedi datgysylltu oddi wrth grŵp presennol o gyfeillion ac ymwneud â grŵp newydd a gwahanol o ffrindiau; gall fod yn chwilio am atebion i gwestiynau am hunaniaeth, ffydd a pherthyn;
- Amgylchiadau Personol – gall mudo, tensiynau yn y gymuned leol a digwyddiadau sy'n effeithio ar wlad neu ranbarth gwreiddiol y myfyriwr/disgybl gyfrannu at ymdeimlad o achwyn sydd wedi'i ysgogi gan brofiad personol o hiliaeth neu wahaniaethu neu agweddau ar bolisi'r Llywodraeth;
- Dyheadau heb eu Bodloni – gall y myfyriwr/disgybl fod ag amgyffredion o anghyfiawnder, teimlo fel methiant, gwrthod bywyd dinesig;
- Profiadau o weithredoedd troseddol – a allai gynnwys cysylltiad â grwpiau troseddol, cyfnod yn y carchar a methu ailsefydlu/ailintegreiddio;

- Angen Addysgol Arbennig – gallai myfyrwyr/disgyblion gael anawsterau â rhyngweithio cymdeithasol, empathi tuag at eraill, deall canlyniadau eu gweithredoedd ac ymwybyddiaeth o gymhellion pobl eraill.

Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn ac nid yw'n golygu ychwaith y bydd pob person ifanc sy'n dioddef yr uchod yn dod ar draws radicaleiddio at ddiben eithafiaeth dreisgar.

Byddai ffactorau risg mwy critigol yn cynnwys:

- cysylltiad â phobl sy'n recriwtio eithafwyr;
- mynd at wefannau eithafiaeth dreisgar, yn enwedig y rhai ag elfen o rwydweithio cymdeithasol;
- meddu ar neu fynd at lenyddiaeth eithafiaeth dreisgar;
- defnyddio naratif eithafol ac ideoleg fyd-eang i esbonio anfantais bersonol;
- cyfiawnhau'r defnydd ar drais i ddatrys problemau cymdeithasol;
- ymuno â sefydliadau eithafol neu geisio ymuno â nhw;
- newidiadau arwyddocaol i olwg a/neu ymddygiad;
- profi lefel uchel o unigedd cymdeithasol o ganlyniad i broblemau argyfwng hunaniaeth a/neu argyfwng personol.

## 5. GWEITHDREFNAU AR GYFER ATGYFEIRIADAU

Mae'n bwysig i ni fod yn wyliadwrus bob amser a bod yn hollol wybodus am y problemau sy'n effeithio ar yr ardal leol, y ddinas a'r gymdeithas yr ydym ni'n byw ac yn gweithio ynddi. Caiff staff eu hatgoffa i anghofio am unrhyw 'anghrediniaeth broffesiynol' 'na allai radicaleiddio ddigwydd yma' a bod yn 'broffesiynol chwilfrydig' pan fydd pryderon yn codi, gan atgyfeirio unrhyw bryderon trwy'r sianeli priodol. (Gweler Atodiad 1 – Delio ag Atgyfeiriadau)

Credwn ei bod hi'n bosibl ymyrryd er mwyn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae **ymyrraeth gynnar yn hanfodol** a rhaid i staff fod yn ymwybodol o'r prosesau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen er mwyn iddynt atgyfeirio pryderon am unigolion a/neu grwpiau. Rhaid i ni fod â'r hyder i herio ac ymyrryd a sicrhau bod gennym arferion diogelu cadarn yn seiliedig ar yr arweiniad a'r arfer orau ddiweddaraf oll.

Bydd Uwch Arweinwyr Dynodedig ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant (Mr Steffan Jones, Mr Tomos Jones and Mrs Catrin Roberts) yn cael hyfforddiant priodol ar adnabod radicaleiddio ac eithafiaeth bosibl a byddant yn delio'n gyflym ag unrhyw atgyfeiriadau gan staff neu bryderon y mae staff yn rhoi gwybod amdanynt.

Bydd y Pennaeth/Uwch Swyddog Dynodedig yn trafod y dull gweithredu mwyaf priodol ar sail pob achos unigol ac yn penderfynu pryd y bydd angen atgyfeirio i asiantaethau allanol (gweler Atodiad 1 – Delio ag Atgyfeiriadau). Gellir ceisio cyngor gan y Tîm Atgyfeirio Canolog bob amser.

Fel yn achos unrhyw atgyfeiriad ynghylch amddiffyn plant, rhaid i staff fod yn ymwybodol os nad ydynt yn cytuno â phenderfyniad i beidio ag atgyfeirio, gallant bob amser wneud atgyfeiriad eu hunain a byddant yn cael eu manylion cyswllt at y diben hwn o'r hysbysfwrdd diogelu yn ystafell y staff.

## 6. LLYWODRAETHWYR, ARWEINWYR A STAFF

Y Pennaeth a holl aelodau eraill yr uwch dîm arwain/yr Uwch Swyddog Dynodedig yw'r arweinwyr ar gyfer atgyfeiriadau'n ymwneud ag eithafiaeth a radicaleiddio. Os digwydd nad yw aelodau'r uwch dîm arwain ar gael, bydd yr holl staff yn gwybod am y sianeli atgyfeirio trwy'r wybodaeth ar yr hysbysfwrdd diogelu yn ystafell y staff.

Bydd staff yn cael briff llawn am yr hyn i'w wneud os ydynt yn pryderu am y posibilrwydd bod disgybl yn cael ei radicaleiddio, neu os oes angen iddynt drafod plant penodol a allai, yn eu barn nhw, fod yn agored i gael eu radicaleiddio neu i safbwyntiau eithafol.

Bydd yr uwch dîm arwain/yr uwch swyddog dynodedig yn gweithio ar y cyd â'r Pennaeth, y Tîm Gofal Bugeiliol ac asiantaethau allanol i benderfynu ar y dull gorau o weithredu i fynd i'r afael â phryderon sy'n codi.

## 7. RÔL Y CWRICWLWM

Mae ein cwricwlwm yn "eang a chytbwys". Mae'n hybu dealltwriaeth, parch, goddefgarwch ac amrywiaeth. Caiff plant eu hannog i rannu eu barn a chydnabod bod ganddynt hawl i'w credoau gwahanol eu hunain, na ddylid eu defnyddio i geisio dylanwadu ar eraill.

Mae ein darpariaeth addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd wedi'i gwreiddio ar draws y cwricwlwm. Mae'n cyfeirio ein gwasanaethau ac mae'n sylfaen i ethos yr ysgol. Rydym yn ymdrechu i roi hyder, hunan-gred, parch a goddefgarwch i'n disgyblion, yn ogystal â gosod safonau a disgwyliadau uchel i'w hunain.

Caiff plant eu haddysgu ynghylch sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a chânt eu hannog i gydnabod bod pobl yn ffugio pwy ydyn nhw ar-lein. Maent yn cael eu haddysgu ynghylch sut i ofyn am help oedolion os ydynt mewn trallod neu'n pryderu am rywbeth a ddarllenant neu a welant ar y rhyngrwyd.

## 8. HYFFORDDIANT STAFF

Trwy gyfleoedd hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol, byddwn yn sicrhau bod ein staff yn gwbl ymwybodol o'r bygythiadau, y risgiau ac agoredrwydd i ddylanwad sy'n gysylltiedig â radicaleiddio, eu bod yn gwybod am y broses radicaleiddio, sut gellir adnabod hyn yn gynnar a sut gallwn roi cymorth fel ysgol i sicrhau bod ein plant yn meddwl yn feirniadol ac yn datblygu hunan-barch, dinasyddiaeth fyd-eang a gwydnwch ac, felly'n gallu gwrthsefyll cysylltiad â gweithgareddau radical neu eithafol.

## 9. YMWELWYR A DEFNYDDIO EIDDO'R YSGOL

Os yw unrhyw aelod staff yn dymuno gwahodd ymwelydd i'r ysgol, rhaid iddynt gwblhau'r dogfennau priodol yn y lle cyntaf. Dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig gan y Pennaeth y gall yr ymwelydd ddod i mewn i'r ysgol Nid yw plant FYTH yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth gydag ymwelwyr allanol, ni waeth beth yw canlyniadau'r gwiriadau diogelwch.

Pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol, bydd pob ymwelydd, gan gynnwys contractwyr, yn darllen yr arweiniad ar ddiogelu ac amddiffyn plant, ac yn cael gwybod pwy yw'r Uwch Arweinwyr Dynodedig a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon a fydd ganddynt.

Os gwneir unrhyw gytundeb i ganiatáu i grwpiau neu fudiadau o'r tu allan i'r ysgol ddefnyddio'r eiddo, gwneir gwiriadau priodol cyn cytuno i'r contract. Caiff defnydd ei fonitro ac os bydd unrhyw ymddygiad nad yw'n cyd-fynd â'r Polisi Delio ag Eithafiaeth a Radicaleiddio, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r heddlu ac yn dod â'r contract i ben.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth mawr ar ryddid barn a mynegi credoau ac ideoleg fel hawliau sylfaenol sydd wrth wraidd gwerthoedd ein cymdeithas. Mae gan ddisgyblion/myfyrwyr ac athrawon yr hawl i siarad yn rhydd a lleisio'u barn. Fodd bynnag, daw cyfrifoldeb yn sgil rhyddid, ac mae rhyddid barn sydd wedi'i anelu at ddylanwadu ar bobl agored i niwed neu sy'n arwain at drais a niwed i bob eraill yn mynd yn groes i'r egwyddorion moesol sy'n rhoi gwerth ar ryddid barn. Nid yw rhyddid barn yn fraint ddiamod; mae'n destun cyfreithiau a pholisïau yn ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol, diogelwch cymunedol a chydlyniant cymunedol.

Gallai'r bygythiad presennol i'r Deyrnas Unedig a ddaw o derfysgaeth gynnwys ecsbloetio pobl agored i niwed, eu cynnwys mewn terfysgaeth neu weithgarwch yn cefnogi terfysgaeth. Gallai normaleiddio safbwyntiau eithafol hefyd beri bod plant a phobl ifanc yn agored i gael eu dylanwadu

a'u hecsbloetio yn y dyfodol. Mae Ysgol Gymraeg Ffwrnes o'r farn bendant y dylid ystyried yr ecsbloetio a'r radicaleiddio hwn fel pryder diogelu.

Mae diffiniadau o radicaleiddio ac eithafiaeth, ynghyd â dangosyddion ynghylch bod yn agored i radicaleiddio i'w gweld yn Atodiad 2.

Mae Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn ceisio amddiffyn plant a phobl ifanc rhag negeseuon pob eithafiaeth dreisgar gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r negeseuon sy'n gysylltiedig ag ideoleg Islamaidd eithafol, neu i ideoleg yr asgell dde eithaf/Neo-Natsïaeth/goruchafiaeth pobl wynion.

## 10. LLEIHAU RISG AC YMATEB

Bydd y llywodraethwyr ysgol, y Pennaeth a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn asesu lefel y risg yn yr ysgol ac yn rhoi camau ar waith i leihau'r risg honno. Gallai asesu risg gynnwys ystyried cwricwlwm addysg grefyddol yr ysgol, ei pholisi addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, polisi ar wasanaethau, y defnydd ar eiddo'r ysgol gan asiantaethau allanol, integreiddio disgyblion yn ôl rhyw ac anghenion addysgol arbennig, y polisi gwrth-fwlio a materion eraill sy'n ymwneud yn benodol â phroffil, cymuned ac athroniaeth yr ysgol.

Bydd ein hysgol yn nodi Pwynt Cyswllt Unigol Atal a fydd yn arweinydd yn y sefydliad ar gyfer diogelu yn gysylltiedig ag amddiffyn unigolion rhag radicaleiddio a chysylltiad â therfysgaeth: Fel arfer, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig fydd hwn.

Pwynt Cyswllt Unigol Atal ar gyfer Ysgol Gymraeg Ffwrnes yw'r Pennaeth, Mr Steffan Jones. Caiff cyfrifoldebau Pwynt Cyswllt Unigol Atal eu disgrifio yn Atodiad 3.

Pan fydd unrhyw aelod staff yn pryderu y gallai disgybl fod mewn perygl o gael ei radicaleiddio o fod â chyswllt â therfysgaeth, dylai siarad â Phwynt Cyswllt Unigol Atal a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, os yw'r ddau'n wahanol.

Gall ffactorau amrywiol gyfrannu at a dylanwadu ar yr amrywiaeth o ymddygiadau sy'n cael eu diffinio fel eithafiaeth dreisgar, ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd rhan mewn unrhyw weithredu eithafol. Am y rheswm hwn, mae'n bosibl na fydd gan yr ymyriadau priodol mewn unrhyw achos arbennig unrhyw gysylltiad penodol â'r bygythiad o radicaleiddio; er enghraifft, gallent fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl, perthynas neu gyffuriau/alcohol.

## 11. PANELI 'CHANNEL' AMLASIANTAETH YN SIR BENFRO

Bydd dyletswyddau Sir Gaerfyrddin o safbwynt Paneli 'Channel' yn cael eu cyflawni ar sail amlasiantaeth a byddant yn dilyn Arweiniad Strategaeth Atal a Dyletswydd 'Channel' fel y'u disgrifir yn Atodiad 4.

## 12. ADOLYGU'R POLISI

### 12.1 Adolygiad Ysgol Unigol

Bydd Polisi Delio ag Eithafiaeth a Radicaleiddio Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant.

**12.2** Cymeradwyir y polisi hwn gan y corff Llywodraethol.

## Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio / Preventing Extremism & Radicalisation

**Atodiad 1**

**Delio ag Atgyfeiriadau ynghylch Ymddygiad sy'n Rhagfarnu**

Rydym yn gwybod am y ffactorau a allai ddangos bod plentyn yn agored i gael ei radicaleiddio neu ddod i gysylltiad â safbwyntiau eithafol, gan gynnwys pwysau gan gyfoedion, dylanwad gan bobl eraill neu'r rhyngrwyd, bwlio, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tensiynau teuluol, troseddau hiliol/casineb, diffyg hunan-barch neu hunaniaeth, ymddygiad sy'n rhagfarnu ac achwynion personol neu wleidyddol

Yn achos ymddygiad sy'n rhagfarnu, dilynir y system ganlynol:

- Bydd adroddiadau yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i'r uwch dîm arwain/Uwch Swyddog Dynodedig neu'r Pennaeth am bob enghraifft o ymddygiad sy'n rhagfarnu.
- Bydd ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal i bob enghraifft o ymddygiad sy'n rhagfarnu a gwneir cofnod ohono yn unol â'r Polisi Ymddygiad Cadarnhaol; cedwir cofnodion yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer unrhyw ddigwyddiad diogelu arall.
- Cysylltir â rhieni/gofalwyr a thrafodir y digwyddiad yn fanwl, gan anelu at amlygu ffactorau cymell, unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau gartref, barn rhieni am y digwyddiad ac er mwyn asesu a yw'r digwyddiad yn ddigon difrifol i gyfiawnhau atgyfeiriad pellach ynghylch diogelu plant. Cedwir cofnod o'r cyfarfod hwn ochr yn ochr â'r adroddiad am y digwyddiad cychwynnol yn y ffolder Diogelu.
- Bydd adroddiadau pellach am ymddygiad sy'n rhagfarnu yn cael eu dilyn i fyny am gyfnod o bedair wythnos ar ôl y digwyddiad gan yr uwch dîm arwain/yr Uwch Swyddog Dynodedig er mwyn asesu a oes newid mewn ymddygiad a/neu agwedd. Byddai cyfarfod pellach â rhieni'n cael ei gynnal pe na bai newid cadarnhaol sylweddol mewn ymddygiad.

**Delio ag Atgyfeiriadau ynghylch Radicaleiddio neu Eithafiaeth Bosibl**

- Bydd digwyddiadau neu bryderon difrifol am radicaleiddio neu eithafiaeth bosibl yn cael eu cyfeirio at y Tîm Asesu Gofal Plant drwy broses atgyfeirio arferol yr ysgol ar gyfer diogelu plant.

**Tîm Atgyfeirio Canolog-**

**☎ 01554 742322** **💻 CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk**

**Y Tu Allan i Oriau Gwaith- ☎ 01558 824283**

**Yn ogystal, bydd y canlynol yn gallu rhoi cyngor pan fydd y sefyllfaoedd hyn yn codi.**

Rhona Evans, Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol

☎ 01267 246595 💻 CAylMDavies@sirgar.gov.uk

**Atodiad 2**

**Rhestr Termau**

**Channel (gweler Atodiad 4)** – dyma raglen sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth yn gynnar i bobl yr ystyrir eu bod yn agored i gael eu denu i derfysgaeth. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull amlasiantaeth o amddiffyn pobl agored i niwed trwy:

- nodi unigolion mewn perygl;
- asesu natur a graddfa'r perygl hwnnw; a
- datblygu'r cynllun cymorth mwyaf priodol i'r unigolion dan sylw.
- Gallai 'Channel' fod yn briodol i unrhyw un y nodir ei fod mewn perygl

**'Eithafiaeth'** – diffinnir eithafiaeth yn Strategaeth Atal 2011 fel gwrthwynebiad llafar neu weithgar i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth cyfraith, rhyddid unigol, a pharch a goddefgarwch tuag at ffydd a chredoau gwahanol. Yn ogystal, rydym yn cynnwys yn ein diffiniad o eithafiaeth alwadau am farwolaeth aelodau o'n lluoedd arfog, boed yn y wlad hon neu dramor.

**'Rhoi ystyriaeth briodol'** – ystyr hyn yw y dylai awdurdodau roi pwys priodol ar yr angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth pan fyddant yn ystyried yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau arferol.

**'Ymyriadau'** – dyma brosiectau y bwriedir iddynt ailgyfeirio sylw pobl sy'n cael eu denu i derfysgaeth. Gall ymyriadau gynnwys mentora, cwnsela, cymorth diwinyddol, annog ymgysylltiad dinesig, datblygu rhwydweithiau cefnogi (teulu a strwythurau cyfoedion) neu ddarparu gwasanaethau prif ffrwd (addysg, cyflogaeth, iechyd, cyllid neu dai).

**'Eithafiaeth nad yw'n dreisgar'** – dyma eithafiaeth, fel y'i diffinnir uchod, nad oes trais yn cyd-fynd ag ef.

'**Atal**' – yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae atal yn golygu lleihau neu ddileu'r risg y bydd unigolion yn cymryd rhan mewn terfysgaeth.

Mae atal yn cynnwys ond nid yw wedi'i gyfyngu i amlygu ac atgyfeirio'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth i ymyriadau priodol. Nod yr ymyriadau hyn yw ailgyfeirio sylw pobl agored i niwed i ffwrdd rhag radicaleiddio.

**'Radicaleiddio'** – mae'n cyfeirio at y broses yr aiff unigolyn drwyddi i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgaeth.

**'Diogelu'** – dyma'r broses o amddiffyn pobl agored i niwed, p'un ai rhag troseddau, mathau eraill o gamdriniaeth neu (yng nghyd-destun y ddogfen hon) rhag cael eu denu i weithgarwch yn gysylltiedig â therfysgaeth.

Rhoddir diffiniad presennol y Deyrnas Unedig o '**derfysgaeth**' yn Neddf Terfysgaeth 2000 (TACT 2000). Yn gryno, mae'n diffinio terfysgaeth fel gweithredu sy'n peryglu neu sy'n achosi trais difrifol i berson/i bobl, sy'n achosi difrod difrifol i eiddo, neu sy'n ymyrryd â neu'n tarfu'n ddifrifol ar system electronig. Rhaid i'r defnydd neu'r bygythiad fwriadu dylanwadu ar y llywodraeth neu ddychryn y cyhoedd ac fe'i gwneir at ddiben eirioli achos gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol.

**'Troseddau'n gysylltiedig â therfysgaeth'** yw'r rhai (fel llofruddiaeth) nad ydynt yn droseddau mewn deddfwriaeth terfysgaeth, ond y bernir eu bod wedi'u cyflawni yn gysylltiedig â therfysgaeth.

**'Agored i ddylanwad/niwed'** – mae'n disgrifio'r cyflwr o allu cael anaf; anodd gwrthsefyll; yn agored i ymosodiad moesol neu ideolegol. Yn Atal, mae'r gair yn disgrifio ffactorau a nodweddion sydd ynghlwm wrth fod yn agored i radicaleiddio.

**Atodiad 3**

## ATAL EITHAFIAETH DREISGAR – ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYNT CYSWLLT UNIGOL

Y pwynt cyswllt unigol ar gyfer (*Ysgol / Gwasanaeth)* yw (*Enw'r Pwynt Cyswllt Unigol)*, sy'n gyfrifol am:

- sicrhau bod staff yr ysgol yn gwybod pwy yw'r pwynt cyswllt unigol yn gysylltiedig ag amddiffyn myfyrwyr/disgyblion rhag radicaleiddio a chymryd rhan mewn terfysgaeth;

- cynnal a chymhwyso dealltwriaeth dda o'r arweiniad perthnasol yn ymwneud ag atal myfyrwyr/disgyblion rhag cymryd rhan mewn terfysgaeth, a'u hamddiffyn rhag cael eu radicaleiddio gan y rhai sy'n cefnogi terfysgaeth neu fathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth;

- codi ymwybyddiaeth o rôl a chyfrifoldebau (*Ysgol / Gwasanaeth)* yn gysylltiedig ag amddiffyn myfyrwyr/disgyblion rhag radicaleiddio a chymryd rhan mewn terfysgaeth;

- monitro effaith cwricwlwm addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd/addysg grefyddol yr ysgol a'i pholisi ar wasanaethau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio i hybu cydlyniant cymunedol a goddefgarwch tuag at ffydd a chredoau gwahanol;

- codi ymwybyddiaeth yn yr ysgol am brosesau diogelu yn gysylltiedig ag amddiffyn myfyrwyr/ disgyblion rhag radicaleiddio a chymryd rhan mewn terfysgaeth;

- gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf yn yr ysgol ar gyfer trafodaethau am achosion yn ymwneud â myfyrwyr/disgyblion a all fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio neu gymryd rhan mewn terfysgaeth;

- casglu gwybodaeth berthnasol yn ymwneud ag atgyfeiriadau myfyrwyr/disgyblion agored i niwed i'r broses ddiogelu;

- mynychu cyfarfodydd fel bo'r angen a chyflawni unrhyw gamau gweithredu yn unol â'r hyn a gytunwyd;

- adrodd ar gynnydd ynghylch camau gweithredu; a

- rhannu unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol mewn modd amserol.

# Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio / Preventing Extremism & Radicalisation

**Atodiad 4**

**Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau**

- CONTEST The United Kingdom's Strategy for Countering Terrorism (July 2011) https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97995/strategycontest.pdf

- Prevent Strategy HM Government (Mehefin 2011) https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97976/preventstrategy-review.pdf

- Channel Duty Guidance. Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism. Statutory guidance for Channel panel members and partners of local panels. HM Government (2015) https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/425189/Channel_Duty_Guidance_April_2015.pdf

- Gwrthsafiad a pharch. Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau. Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymry Ifanc (Ionawr 2011) http://gov.wales/docs/dcells/publications/110209respecten.pdf

- Cadw dysgwyr yn ddiogel. Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002. Llywodraeth Cymru (Ionawr 2015) http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Sir Gaerfyrddin

- Polisi / Cynllun Cydraddoldeb Strategol

- Polisi Gwrth-fwlio

- Polisi Rheoli Ymddygiad

- Polisi E-ddiogelwch

## Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio / Preventing Extremism & Radicalisation

**This policy should be read in conjunction with key national and local legislation, guidance and policies – see Appendix 4 for full bibliography.**

### 1. POLICY CONTEXT

The United Kingdom's Strategy for Countering Terrorism, entitled CONTEST and as referenced in the Counter-Terrorism and Security Act 2015, contains four key work streams:

- **Pursue,**
- **Prevent,**
- **Protect and**
- **Prepare.**

Each work stream comprises a number of key objectives. This Policy deals with the Prevent work stream only.

**Prevent**
The aim of the Prevent strategy is to reduce the threat to the UK from terrorism by stopping people becoming terrorists or supporting terrorism.

Guidance in England and Wales, see Appendix 4, explains the obligations for specified authorities to have due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism.

### 2. POLICY STATEMENT

Ysgol Gymraeg Ffwrnes is fully committed to safeguarding and promoting the welfare of all its pupils. Every member of staff recognises that safeguarding against radicalisation and extremism is no different to safeguarding against any other vulnerability in today's society. The Preventing Extremism and Radicalisation Policy sets out our beliefs, strategies and procedures to protect vulnerable individuals from being radicalised or exposed to extremist views, by identifying who they are and promptly providing them with support.

### 3. AIMS AND PRINCIPLES

Ysgol Gymunedol Trimsaran's Preventing Extremism and Radicalisation Policy is intended to provide a framework for dealing with issues relating to vulnerability, radicalisation and exposure to extreme views. We recognise that we are well placed to be able to identify safeguarding issues and this policy clearly sets out how the school will deal with such incidents and identifies how the curriculum and ethos underpins our actions.
The objectives are that:

- All governors, teachers, teaching assistants and non-teaching staff will have an understanding of what radicalisation and extremism are is and why we need to be vigilant in school.
- All governors, teachers, teaching assistants and non-teaching staff will know what the school policy is on tackling extremism and radicalisation and will follow the policy guidance swiftly when issues arise.
- All pupils will understand the dangers of radicalisation and exposure to extremist views; building resilience against these and knowing what to do if they experience them.
- All parents/carers and pupils will know that the school has policies in place to keep pupils safe from harm and that the school regularly reviews its systems to ensure they are appropriate and effective.

The main aims of this policy are to ensure that all staff are fully engaged in being vigilant about radicalisation; that they overcome professional disbelief that such issues will not happen here and

ensure that we work alongside other professional bodies and agencies to ensure that our pupils are safe from harm.

## 4. INDICATORS OF VULNERABILITY TO RADICALISATION

Radicalisation refers to the process by which a person comes to support terrorism and forms of extremism leading to terrorism. Extremism is defined by the Government in the Prevent Strategy as:

Vocal or active opposition to fundamental British values, including democracy, the rule of law, individual liberty and mutual respect and tolerance of different faiths and beliefs. We also include in our definition of extremism calls for the death of members of our armed forces, whether in this country or overseas.

Extremism is defined by the Crown Prosecution Service as:

*The demonstration of unacceptable behaviour by using any means or medium to express views which:*

- *encourage, justify or glorify terrorist violence in furtherance of particular beliefs;*
- *seek to provoke others to terrorist acts;*
- *encourage other serious criminal activity or seek to provoke others to serious criminal acts; or*
- *foster hatred which might lead to inter-community violence in the UK.*

There is no such thing as a "typical extremist". Those who become involved in violent extremist actions come from a range of backgrounds and experiences, and most individuals, even those who hold radical views, do not become involved in violent extremist activity.

Pupils may become susceptible to radicalisation through a range of social, personal and environmental factors. It is known that violent extremists exploit vulnerabilities in individuals to drive a wedge between them and their families and communities, ie to create a 'them' and 'us' mentality. It is vital that all school staff are able to recognise those vulnerabilities.

Indicators of vulnerability include:

- **Identity Crisis**- the student/pupil is distanced from their cultural/religious heritage and experiences discomfort about their place in society;
- **Personal Crisis**- the student/pupil may be experiencing family tensions; a sense of isolation; and low self-esteem; they may have dissociated from their existing friendship group and become involved with a new and different group of friends; they may be searching for answers to questions about identity, faith and belonging;
- **Personal Circumstances**- migration; local community tensions; and events affecting the student/pupil's country or region of origin may contribute to a sense of grievance that is triggered by personal experience of racism or discrimination or aspects of Government policy;
- **Unmet Aspirations**- the student/pupil may have perceptions of injustice; a feeling of failure; rejection of civic life;
- **Experiences of Criminality**- which may include involvement with criminal groups, imprisonment, and poor resettlement/reintegration;
- *Special Educational Need*- students/pupils may experience difficulties with social interaction, empathy with others, understanding the consequences of their actions and awareness of the motivations of others.

However, this list is not exhaustive, nor does it mean that all young people experiencing the above will encounter radicalisation for the purposes of violent extremism.

More critical risk factors could include:

- being in contact with extremist recruiters;
- accessing violent extremist websites, especially those with a social networking element;
- possessing or accessing violent extremist literature;
- using extremist narratives and a global ideology to explain personal disadvantage;
- justifying the use of violence to solve societal issues;
- joining or seeking to join extremist organisations;
- significant changes to appearance and/or behaviour;
- experiencing a high level of social isolation resulting in issues of identity crisis and/or personal crisis.

## 5. PROCEDURES FOR REFERRALS

It is important for us to be constantly vigilant and remain fully informed about the issues which affect the local area, city and society in which we work and live. Staff are reminded to suspend any ‘professional disbelief’ that instances of radicalisation ‘could not happen here’ and to be ‘professionally inquisitive’ where concerns arise, referring any concerns through the appropriate channels. (See Appendix 1 – Dealing with Referrals)

We believe that it is possible to intervene to protect people who are vulnerable. **Early intervention is vital** and staff must be aware of the established processes for front line professionals to refer concerns about individuals and/or groups. We must have the confidence to challenge and to intervene and ensure that we have strong safeguarding practices based on the most up-to-date guidance and best practise.

Designated Senior Leaders for Child Protection and Safeguarding (Mr Steffan Jones, Mr Tomos Jones and Mrs Catrin Roberts) will be appropriately trained in identifying potential radicalisation and extremism and will deal swiftly with any referrals made by staff or with concerns reported by staff.

The Headteacher/Designated Senior Person will discuss the most appropriate course of action on a case-by-case basis and will decide when a referral to external agencies is needed (see Appendix 1 – Dealing with Referrals). Advice can always be sought from the Central Referral Team.

As with any child protection referral, staff must be made aware that if they do not agree with a decision not to refer, they can make the referral themselves and will be given the contact details to do this via the safeguarding board in the staffroom.

## 6. GOVERNORS, LEADERS AND STAFF

The Headteacher and all other members of the SLT/DSP are the leaders for referrals relating to extremism and radicalisation. In the unlikely event that SLT members are not available, all staff know the channels by which to make referrals via the safeguarding board in the staffroom.

Staff will be fully briefed about what to do if they are concerned about the possibility of radicalisation relating to a pupil, or if they need to discuss specific children whom they consider to be vulnerable to radicalisation or extremist views.

The SLT/DSP will work in conjunction with the Headteacher, Pastoral Care Team and external agencies to decide the best course of action to address concerns which arise.

## 7. THE ROLE OF THE CURRICULUM

Our curriculum is “broad and balanced”. It promotes understanding, respect, tolerance and diversity. Children are encouraged to share their views and recognise that they are entitled to have their own different beliefs which should not be used to influence others.

Our PSHE provision is embedded across the curriculum. It directs our assemblies and underpins the ethos of the school. We strive to equip our pupils with confidence, self-belief, respect and tolerance as well as setting high standards and expectations for themselves.

Children are taught about how to stay safe when using the internet and are encouraged to recognise that people are not always who they say they are online. They are taught to seek adult help if they are upset or concerned about anything they read or see on the internet.

## 8. STAFF TRAINING

Through INSET opportunities in school, we will ensure that our staff are fully aware of the threats, risks and vulnerabilities that are linked to radicalisation; are aware of the process of radicalisation, how this might be identified early on and how we can provide support as a school to ensure that our children think critically, develop self-esteem, global citizenship, resilience and are thus able to resist involvement in radical or extreme activities.

## 9. VISITORS AND THE USE OF SCHOOL PREMISES

If any member of staff wishes to invite a visitor in the school, they must first complete the appropriate documentation. Only after written agreement from the Headteacher can the visitor enter school. Children are NEVER left unsupervised with external visitors, regardless of safeguarding check outcomes.

Upon arriving at the school, all visitors including contractors, will read the child protection and safeguarding guidance and be made aware of who the Designated Senior Leaders for Child Protection and Safeguarding are and how to report any concerns which they may experience.

If any agreement is made to allow non-school groups or organisations to use the premises, appropriate checks will be made before agreeing the contract. Usage will be monitored and in the event of any behaviour not in-keeping with the Tackling Extremism and Radicalisation Policy, the school will contact the police and terminate the contract.

The school values freedom of speech and the expression of beliefs and ideology as fundamental rights underpinning our society's values. Both pupils/students and teachers have the right to speak freely and voice their opinions. However, freedom comes with responsibility and free speech that is designed to manipulate the vulnerable or that leads to violence and harm of others goes against the moral principles in which freedom of speech is valued. Free speech is not an unqualified privilege; it is subject to laws and policies governing equality, human rights, community safety and community cohesion.

The current threat from terrorism in the United Kingdom may include the exploitation of vulnerable people, to involve them in terrorism or in activity in support of terrorism. The normalisation of extreme views may also make children and young people vulnerable to future manipulation and exploitation. The school is clear that this exploitation and radicalisation should be viewed as a safeguarding concern.

Definitions of radicalisation and extremism, and indicators of vulnerability to radicalisation are in the Appendix 2.

The school seeks to protect children and young people against the messages of all violent extremism including, but not restricted to, those linked to extremist Islamist ideology, or to Far Right/NeoNazi/White Supremacist ideology.

## 10. RISK REDUCTION & RESPONSE

The school governors, the Headteacher and the Designated Senior Person will assess the level of risk within the school and put actions in place to reduce that risk. Risk assessment may include consideration of the school's RE curriculum, PSHE policy, assembly policy, use of school premises by external agencies, integration of pupils by gender and SEN, anti-bullying policy and other issues specific to the school's profile, community and philosophy.

Our school, will identify a Prevent Single Point of Contact (SPOC) who will be the lead within the organisation for safeguarding in relation to protecting individuals from radicalisation and involvement in terrorism: this will normally be the Designated Safeguarding Lead.

The SPOC for school is Mr Steffan Jones (Headteacher). The responsibilities of the SPOC are described in Appendix 3.

When any member of staff has concerns that a pupil may be at risk of radicalisation or involvement in terrorism, they should speak with the SPOC and to the Designated Senior Person if this is not the same person.

Numerous factors can contribute to and influence the range of behaviours that are defined as violent extremism, but most young people do not become involved in extremist action. For this reason the appropriate interventions in any particular case may not have any specific connection to the threat of radicalisation, for example they may address mental health, relationship or drug/alcohol issues.

## 11. MULTI-ANGENCY CHANNEL PANELS IN PEMBROKESHIRE

Carmarthenshire's duties in respect of Channel Panels will be discharged on a multi-agency basis and will adhere to the Prevent Strategy and Channel Duty Guidance as referenced in Appendix 4.

## 12. POLICY REVIEW

**12.1 Individual School Review**
The school's Tackling Extremism and Radicalisation Policy will be reviewed annually as part of the overall Child Protection and Safeguarding policy review.

**12.2** This policy will be ratified by the Governing Body.

## Appendix 1

### Dealing with Referrals of Prejudicial Behaviour

We are aware of the potential indicating factors that a child is vulnerable to being radicalised or exposed to extreme views, including peer pressure, influence from other people or the internet, bullying, crime and anti-social behaviour, family tensions, race/hate crime, lack of self-esteem or identity, prejudicial behaviour and personal or political grievance. In the event of prejudicial behaviour the following system will be followed;

- All incidents of prejudicial behaviour will be reported directly to the SLT/Designated Senior Person or the Headteacher.
- All incidents of prejudicial behaviour will be fully investigated and recorded in line with the Behaviour Policy and records will be kept in line with procedures for any other safeguarding incident.
- Parents/carers will be contacted and the incident discussed in detail, aiming to identify motivating factors, any changes in circumstances at home, parental views of the incident and to assess whether the incident is serious enough to warrant a further child protection referral. A note of this meeting is kept alongside the initial incident report in the Safeguarding folder.
- The SLT/Designated Senior Person will follow-up any further reports of prejudicial behaviour for a period of four weeks after the incident to assess whether there is a change in behaviour and/or attitude. A further meeting with parents would be held if there is not a significant positive change in behaviour.

### Dealing with Referrals of Potential Radicalisation or Extremism

- Serious incidents or concerns about potential radicalisation or extremism will be referred to the Central Referral Team through the usual school child protection referral process.

**Central Referral Team-**

**☎ 01554 742322 💻 CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk**

**Out of Hours- ☎ 01558 824283**

**In addition the following will be able to advise when these situations arise-**

Rhona EvansCatr, Local Authority Designated Officer

☎ 01267 246595 💻 CarylMDavies@carmarthenshire.gov.uk

**Appendix 2**

**Glossary of Terms**

**Channel (see Appendix 4)** is a programme which focuses on providing support at an early stage to people who are identified as being vulnerable to being drawn into terrorism. The programme uses a multi-agency approach to protect vulnerable people by:

- identifying individuals at risk;
- assessing the nature and extent of that risk; and
- developing the most appropriate support plan for the individuals concerned.
- Channel may be appropriate for anyone who is considered at risk from radicalisation.

**'Extremism'** is defined in the 2011 Prevent strategy as vocal or active opposition to fundamental British values, including democracy, the rule of law, individual liberty and mutual respect and tolerance of different faiths and beliefs. We also include in our definition of extremism calls for the death of members of our armed forces, whether in this country or overseas.

**'Having due regard'** means that the authorities should place an appropriate amount of weight on the need to prevent people being drawn into terrorism when they consider all the other factors relevant to how they carry out their usual functions.

**'Interventions'** are projects intended to divert people who are being drawn into terrorist activity. Interventions can include mentoring, counselling, theological support, encouraging civic engagement, developing support networks (family and peer structures) or providing mainstream services (education, employment, health, finance or housing).

**'Non-violent extremism'** is extremism, as defined above, which is not accompanied by violence. 'Prevention' in the context of this document means reducing or eliminating the risk of individuals becoming involved in terrorism.

Prevent includes but is not confined to the identification and referral of those at risk of being drawn into terrorism into appropriate interventions. These interventions aim to divert vulnerable people from radicalisation.

**'Radicalisation'** refers to the process by which a person comes to support terrorism and extremist ideologies associated with terrorist groups.

**'Safeguarding'** is the process of protecting vulnerable people, whether from crime, other forms of abuse or (in the context of this document) from being drawn into terrorist related activity.

The current UK definition of '**terrorism**' is given in the Terrorism Act 2000 (TACT 2000). In summary this defines terrorism as an action that endangers or causes serious violence to a person/people; causes serious damage to property; or seriously interferes or disrupts an electronic system. The use or threat must be designed to influence the government or to intimidate the public and is made for the purpose of advancing a political, religious or ideological cause.

**'Terrorist-related offences'** are those (such as murder) which are not offences in terrorist legislation, but which are judged to be committed in relation to terrorism.

**'Vulnerability'** describes the condition of being capable of being injured; difficult to defend; open to moral or ideological attack. Within Prevent, the word describes factors and characteristics associated with being susceptible to radicalisation.

**Appendix 3**

**PREVENTING VIOLENT EXTREMISM - ROLES AND RESPONSIBILITIES OF THE SINGLE POINT OF CONTACT (SPOC)**

The SPOC for Ysgol Gymraeg Ffwrnes is Mr Steffan Jones, who is responsible for:

- ensuring that staff of the school are aware who is the SPOC in relation to protecting students/pupils from radicalisation and involvement in terrorism;
- maintaining and applying a good understanding of the relevant guidance in relation to preventing students/pupils from becoming involved in terrorism, and protecting them from radicalisation by those who support terrorism or forms of extremism which lead to terrorism;
- raising awareness about the role and responsibilities of Ysgol Gymraeg Ffwrnes in relation to protecting students/pupils from radicalisation and involvement in terrorism;
- monitoring the effect in practice of the school's PSHE/ RE curriculum and assembly policy to ensure that they are used to promote community cohesion and tolerance of different faiths and beliefs;
- raising awareness within the school about the safeguarding processes relating to protecting students/pupils from radicalisation and involvement in terrorism;
- acting as the first point of contact within the school for case discussions relating to students/ pupils who may be at risk of radicalisation or involved in terrorism;
- collating relevant information in relation to referrals of vulnerable students/pupils into the safeguarding process;
- attending meetings as necessary and carrying out any actions as agreed;
- reporting progress on actions and
- sharing any relevant additional information in a timely manner.

**Appendix 4**

**Bibliography & References**


- CONTEST The United Kingdom's Strategy for Countering Terrorism (July 2011) https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97995/strategycontest.pdf

- Prevent Strategy HM Government (June 2011) https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97976/preventstrategy-review.pdf

- Channel Duty Guidance. Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism. Statutory guidance for Channel panel members and partners of local panels. HM Government (2015) https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/425189/Channel_Duty_Guidance_April_2015.pdf

- Respect and resilience. Developing community cohesion – a common understanding for schools and their communities. Welsh Assembly Government Guidance, Young Wales (January 2011) http://gov.wales/docs/dcells/publications/110209respecten.pdf

- Keeping learners safe. The role of local authorities, governing bodies and proprietors of independent schools under the Education Act 2002. Welsh Government (January 2015) http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf

- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

- Safeguarding & Child Protection Carmarthenshire County Council Policy

- Strategic Equality Plan / policy

- Anti-Bullying Policy

- Behaviour Management Policy

- E-Safety Policy